O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1491 (Cy. 270)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Rhagfyr 2019* |
| *Yn dod i rym* | *9 Rhagfyr 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 9 Rhagfyr 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn yw:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 9 Rhagfyr 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 12, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

---

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 12 heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(b) goddiweddyd unrhyw gerbyd modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur sy'n 3.2 metr neu 3.7 metr o led neu'n lletach fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

**11.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**12.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'u dangosir gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.